

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Ebrill, 2023

- YN BRESENNOL:** Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)
Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)
- Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, John I Jones, Eurn Morris, Pip O'Neill, Margaret M Roberts a Ken Taylor
- Aelod Cyfetholedig - Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)
- Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd)
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd,
Pennaeth Democratiaeth,
Rheolwr Adfywio (DGL) (ar gyfer eitem 4),
Rheolwr Datblygiad Economaidd (THJ) (ar gyfer eitem 5),
Rheolwr Sgriwtini (AGD),
Swyddog Pwyllgor (MEH)
- HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Carwyn Jones (Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer);
Cynghorydd Gary Pritchard (Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuencid a Thai);
Cynghorydd Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion);
Cynghorydd Dafydd R Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff);
Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid).
- YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr T LI Hughes MBE a Derek Owen
Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd)

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

3 COFNODION

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 15 Mawrth, 2023, yn gofnod cywir.

4 STRATEGAETH GWELLA CANOL TREFI YNYS MÔN

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd ar Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, ac yn absenoldeb Arweinydd y Cyngor, dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid fod canol trefi yn y rhan fwyaf o drefi a dinasoedd ledled y DU wedi newid dros y blynyddoedd. Dywedodd fod Cynllun y Cyngor, a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddar, yn cynnwys targed i 'wella bywiogrwydd a hyfywedd canol ein trefi' a 'bod pobl Ynys Môn, a'i chymunedau, yn mwynhau, yn diogelu ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn i awdurdodau lleol ymdrin â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd. Aeth ymlaen i ddweud bod Archwilio Cymru wedi cynnal astudiaeth ar Adfywio Canol Trefi yng Nghymru, ac wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Medi 2021 yn cyflwyno sawl argymhelliad i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Cafodd yr adroddiad hwn, ac ymateb y Cyngor, ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2022. Tynnodd y broses hon sylw at yr angen i'r Cyngor ddatblygu dull strategol ar gyfer gwella canol trefi. Mae rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o gydrannau, gan gynnwys grantiau cyfalaf a benthyciadau ar gyfer gwneud gwelliannau yng nghanol trefi. Mae nifer o strategaethau/cynlluniau adfywio canol trefi neu drefi wedi'u paratoi ar Ynys Môn yn y gorffennol, gyda'r rhan fwyaf yn cyd-fynd â chyfleoedd ariannu allanol penodol, ac mae nifer wedi'u paratoi ar gyfer Caerdybi dros y blynyddoedd. Bellach, cynigir bod un strategaeth ar gyfer y sir gyfan, yn ymdrin â phob canol tref ar Ynys Môn, yn cael ei pharatoi, ac nad yw wedi'i chlymu ag unrhyw raglen neu gyllid allanol, ond yn hytrach, yn adlewyrchu anghenion ehangach y sir a'i threfi. Mae'r angen mwyaf yn y tair tref fwyaf sef Caerdybi, Amlwch a Llangefni, ac mae Porthaethwy a Biwmares yn ymddangos yn fwy ffyniannus.

Aeth yr Aelod Portffolio ymlaen i ddweud, yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer yr argymhellion o fewn yr adroddiad, bydd proses ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu rhoi ar waith i gasglu safbwyntiau, sylwadau, a cheisio cefnogaeth ar gyfer y strategaeth arfaethedig, gyda'r bwriad o'i chwblhau a'i mabwysiadu yn ystod 2023. Defnyddir y broses ymgynghori hefyd i gasglu safbwyntiau, sylwadau ac argymhellion ar gyfer gwelliannau i ganol trefi unigol ac i lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau siapio lleoedd unigol a/neu brosiectau perthnasol, yn dibynnu ar adnoddau.

Dywedodd y Rheolwr Adnewyddu fod trefi a chanol trefi Ynys Môn wrth wraidd gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr Ynys. Dywedodd bod y nifer sylweddol o siopau gwag yng nghanol tref Caerdybi yn adlewyrchu problemau'r economi leol, a datblygiad y parc manwerthu ar gyrion y dref fel y brif ardal siopa. Dywedodd fod menter siopau gwag Caerdybi wedi helpu busnesau

bach i ddechrau masnachu o siopau gwag, a bod hyn wedi gostwng y cyfraddau gwacter uchel blaenorol, ond yn ystod y pandemig, mae nifer y siopau gwag wedi mynd yn ôl i'r lefelau uchel blaenorol. Dywedodd fod nifer y siopau gwag yn Amlwch hefyd wedi cynyddu'n ddiweddar, sydd heb os yn adlewyrchu'r golled o ran gwaith yn yr ardal. Mae'r argymhelliad i droi gweddill yr unedau masnachol gweigion yn gartrefi yn cael ei annog, ac mae cyllid grant wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Rheolwr Adfywio hefyd y byddai ystyried llety gwyliau'n addas ar gyfer canol tref Caergybi.

Aeth y Rheolwr Adfywio ymlaen i ddweud nad oes digon o adnoddau staffio ar gael i sylweddoli'r anghenion gwaith er mwyn adfywio canol y trefi, ac mae cyllid grant yn cael ei ddarparu gan grantiau ariannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin tuag at recriwtio staff ychwanegol. Bydd ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol yn digwydd o fewn y strategaeth, a chwblheir ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2023 a ddefnyddir i lywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Lleoedd trefi unigol. Mae gan y Cynghorau Tref, a sawl sefydliad arall, rôl bwysig o ran gwella a rheoli canol trefi, a bydd angen iddynt fod ynghlwm â'r broses. Nodwyd fod aelodau Grŵp Adfywio Llangedfni wedi trefnu ymweliad er mwyn gweld y gwaith yn mynd rhagddo gan bartneriaethau lleol ym Mlaenau Ffestiniog a Bethesda.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor drafod y canlynol:-

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch diffiniad 'tref' a 'chanol tref'? Dywedwyd y bydd yn rhaid i'r Awdurdod baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol agos, ac awgrymwyd y byddai'n gyfle i ganolbwyntio ar y dref a chanol y dref. Dywedwyd hefyd na fydd canol y trefi yn debyg i'r hyn a welwyd yn ystod y 60au a'r 70au. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oes un diffiniad penodol ar gyfer 'tref' na 'chanol tref', a nodwyd bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol, yn enwedig y polisi strategol ar gyfer canol trefi (PS15), yn dynodi Caergybi a Llangedfni fel 'canolfannau gwasanaethau masnachol trefol', a bod Amlwch, Benllech, Biwmares, Porthaethwy, Llanfairpwll, Rhosneigr, y Fali a Chemaes yn 'ganolfannau gwasanaethau lleol'.
- Dywedwyd bod y rhan fwyaf o Ynys Môn yn ardal wledig gyda phentrefi bychain. Codwyd cwestiynau ynghylch y weledigaeth ar gyfer y pentrefi gwledig mawr a bach ar yr Ynys, h.y. Benllech, Moelfre a Phentraeth. Cynghorwyd y Pwyllgor bod rhaglen ddatblygu wledig wedi'i hariannu gan gyllid Ewropeaidd yn bodoli, a bod Menter Môn yn ei harwain. Gan y bydd y cyllid Ewropeaidd yn dod i ben, y Gronfa Ffyniant Gyffredin fydd y ffynhonnell grant, ac mae ceisiadau wedi'u cyflwyno i gefnogi prosiectau o fewn cymunedau gwledig. Mae nifer o grwpiau bach mewn ardaloedd gwledig wedi elwa o raglen y Gronfa Adfywio Cymunedol o ran darparu grantiau i gymunedau ledled y wlad. Nodwyd hefyd bod y Cyngor Sir yn aelod o Fforwm Gwledig CLILC, sy'n llobio ar gyfer ardaloedd gwledig.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y cyfleoedd a heriau a wynebwr wrth ddibynnu ar gyllid grant, y mae llawer yn ymgeisio amdano, i ddarparu'r rhaglenni? Dywedwyd wrth y Pwyllgor gan mai dim ond am amser byr mae cyllid grant ar gael, gall fod yn heriol pan mae angen recriwtio staff er mwyn cyflwyno'r rhaglen. Nodwyd fod cyllid hyblyg i gwblhau'r prosiect yn bwysig.
- Cyfeiriwyd at y gofyniad i fuddsoddi mewn trefi ar Ynys Môn. Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at ardal Porthladd Amlwch, a bod angen buddsoddi ac adfywio yn yr ardal. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch argaeledd buddsoddiad preifat i ariannu

mentrau rhaglen adfywio canol trefni Ynys Môn. Cynghorwyd y Pwyllgor fod y penderfyniadau sylweddol a wnaed gan randdeiliaid i leoli mewn trefi yn gatalydd ar gyfer adfywio canol trefi, fel y gwelwyd ym Mhorthaethwy. Dywedwyd fod yr ardal o amgylch y sgwâr ym Mhorthladd Amlwch wedi gwella'n weledol, a bod nifer o drigolion yn adnewyddu eu tai. Mae cwmni wedi'i gomisiynu i arolygu'r adeiladu mwyaf adfeiliedig yn Amlwch a Llangefni a bydd yn cael ei ddefnyddio i annog perchnogion i adnewyddu'r adeiladau hyn. Mae grant gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn gwella tu blaen adeiladau mewn dwy dref yn Amlwch. Gall cyllid grant Arfor hefyd fod yn fanteisiol o ran gwella trefi. Dywedodd y Rheolwr Adfywio fod Cyngor Tref Caergybi yn fodlon cynnal yr asedau sydd wedi'u gwella gan gyllid grant e.e. Toiledau Sgwâr Swift a'r Tŵr Gwyllo.

- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut fydd Grŵp Adfywio Cyngor Tref Llangefni yn cael ei gefnogi? Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr Adran Datblygiad Economaidd yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Adfywio Llangefni, ac mae'n rhaid ceisio cyllid grant er mwyn cwblhau gwelliannau yn y dref.
- Dywedwyd nad yw'r cyhoedd yng Nghaergybi'n ymwybodol o'r datblygiadau fydd yn deillio o'r Gronfa Ffyniant Gyffredinol, y Statws Porthladd Rhydd a Datblygiad y Morglawdd. Cynghorwyd y Pwyllgor fod trefniadau mewnol angen bod yn rymus oherwydd y datblygiadau yng Nghaergybi, a bydd angen ymgysylltu ymhellach gyda'r gymuned leol.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch aliniad gyda ffrydiau gwaith Siapio Lleoedd a chynlluniau i gryfhau'r seilwaith mewn cymunedau lleol, yn enwedig cyfleusterau gwefru ceir trydan. Cynghorwyd y Pwyllgor mai bwriad y strategaeth yw cynyddu nifer y pwyntiau gwefru ceir trydan sydd ar yr Ynys, ond mae'r cynnydd hwnnw'n dibynnu ar gyllid grant. Erbyn hyn, mae niferoedd y pwyntiau gwefru ceir trydan ar Ynys Môn, sy'n gymharol â'r boblogaeth, ymhlith yr uchaf.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi cynnwys drafft Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn;**
- **Argymhell y Strategaeth drafft i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.**

GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod

5 PORTHLADDOEDD RHYDD YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd am Borthladd Rhydd Ynys Môn.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar gyfer Datblygiad Economaidd, ar 23 Mawrth 2023, fod y Cyngor Sir wedi cael gwybod ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais am Borthladd Rhydd. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd y gwaith sylweddol wnaed gan Swyddogion y Cyngor, Stena Line a'r ymrwymiad i gyflwyno'r cynnig am y Porthladd Rhydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y cynnig am statws Porthladd Rhydd wedi bod yn llwyddiannus yn sgil cwblhau achos busnes manwl. Cynhelir cyfarfodydd gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ynghyd â Stena Line, er mwyn egluro

cyfrifoldebau, atebolrwydd a darparu rhagor o arweiniad. Aeth ymlaen i ddweud y bydd angen dechrau gwaith yn ystod y 6 mis nesaf er mwyn gallu rhyddhau'r £25m o gyllid cyfalaf. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ddatblygiadau prosiectau eraill yng Nghaergybi, e.e. adfer y Morglawdd, Morlais, Hwb Hydrogen a bod Stena Line yn bwriadu clirio cyn safle Anglesey Aluminium. Dywedodd y bydd angen cynllunio strategol o fewn tref Caergybi, gan gynnwys meysydd gwasanaeth eraill, fel darpariaeth addysg ac iechyd, a sicrhau nad yw datblygiadau'n cael effaith andwyol ar breswylwyr.

Wrth ystyried yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor drafod y canlynol:-

- Dywedwyd fod cynllun y prosiect yn rhagweld y bydd rhwng 3,500 a 13,000 o gyfleoedd gwaith newydd yn cael eu creu dros gyfnod o 15 mlynedd. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch pa drefniadau fydd ar waith i sicrhau eu bod nhw'n swyddi o ansawdd, a bod gan drigolion Ynys Môn y sgiliau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn? Cynghorwyd y Pwyllgor bod peth ansicrwydd ynghylch buddion y statws Porthladd Rhydd, a phwysleisiwyd bod y ffigwr o 13,000 o gyfleoedd gwaith yn berthnasol i ogledd Cymru gyfan, nid Ynys Môn yn unig. Pwysleisiwyd y bydd angen cwblhau gwaith gyda Stena Line a rhanddeiliaid rhanbarthol, partneriaeth sgiliau rhanbarthol a Llandrillo Menai, er mwyn galluogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd gwaith fydd yn deillio o'r Porthladd Rhydd.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch statws y drydedd bont ar draws y Fenai, a'r gwelliannau sydd eu hangen ar gyfer y rhwydwaith priffordd oherwydd y statws Porthladd Rhydd? Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod angen cryfhau gwytnwch a'r cysylltiadau rhwydwaith ledled yr Ynys, ac mae pwysau'n parhau ar Lywodraeth Cymru i ganiatáu'r drydedd bont ar draws Y Fenai.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch faint o gwmnïau sydd wedi mynegi diddordeb mewn adleoli ar yr Ynys oherwydd y statws Porthladd Rhydd? Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer o gwmnïau a sefydliadau wedi mynegi diddordeb gan gynnwys GE-Hitachi, Rolls Royce SMR, Bechel, BP Lightsource a phrosiect Morlais Menter Môn, pan gyflwynwyd y cynnig gwreiddiol. Dywedwyd, unwaith fydd y strwythurau llywodraethu ar waith, bydd trafodaethau gyda busnesau sydd â diddordeb yn parhau. Pwysleisiwyd ei bod hi'n bwysig denu busnesau a all greu gwaith tymor hir gwerthfawr. Mynegodd y Pwyllgor ei bod hi'n bwysig fod pobl ifanc yn cael cyfleoedd megis prentisiaethau gyda'r cwmnïau sydd wedi dangos diddordeb mewn adleoli ar yr Ynys, a dylid hysbysu pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yng ngogledd Cymru o'r cyfleoedd fydd ar gael. Dywedwyd hefyd bod angen cynnal trafodaethau er mwyn ailddechrau'r cwnni awyrennau o Gaerdydd i Ynys Môn. Dywedodd y Prif Weithredwr y manteisir ar bob cyfle i drafod y cwmni awyrennau o Gaerdydd i Ynys Môn gyda Llywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud bod angen cynnwys cynllun sgiliau a chyflogaeth o fewn Achos Busnes y Porthladd Rhydd. Dywedodd fod y gwaith partneriaeth rhwng Llandrillo Menai, MSparc a'r ysgolion uwchradd yn bwysig iawn o ran deall y cyfleoedd gwaith posibl a all y statws Porthladd Rhydd ei gynhyrchu. Cwestiynodd y Pwyllgor gapasiti hyfforddiant Llandrillo Menai o ran mynd i'r afael â'r sgiliau fydd eu hangen i lenwi'r swyddi a fydd yn cael eu creu gan y Porthladd Rhydd ar gyfer pobl leol. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod Strategaeth Sgiliau ar waith yng ngogledd Cymru, sy'n gyrru'r buddsoddiad i greu'r capasiti o ran hyfforddiant mewn colegau ledled gogledd Cymru. Dywedodd, pan fydd y prosiectau'n cael eu datblygu, bydd angen rhoi Cynllun

Sgiliau ar waith. Mae'n rhaid i'r bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gwaith, ac y gallent gyfoethogi eu sgiliau er mwyn gallu ymgeisio ar gyfer y swyddi fydd ar gael, a gallu datblygu o fewn eu gyrfaoedd yn y dyfodol yn dilyn hynny.

- Cyfeiriwyd at gau Ffatri 2 Sisters yn Llangefni'n ddiweddar, gan goli 700 o swyddi, a'r effaith ar y gymuned a'r Ynys. Gofynnwyd cwestiynau am y math o gyfleoedd gwaith fydd y deillio o'r statws Porthladd Rhydd, a'r effaith a all hyn ei gael ar allu trigolion lleol i brynu tai a'r effaith ar yr iaith Gymraeg? Sicrhawyd y Pwyllgor fod anghenion lleol yr Ynys yn cael eu hystyried, a bod trigolion a busnesau lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o'r statws Porthladd Rhydd. Yn hanesyddol, mae cyfleoedd gwaith o achos Porthladdoedd Rhydd ledled y DU wedi bod ym meysydd megis gweithgynhyrchu, dosbarthu a gwaith mewn warws. Fodd bynnag, bydd yr elfen ynni ar Ynys Môn yn denu cyflogaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr iaith Gymraeg yn bwysig, a dywedodd fod yr iaith wedi bod yn berthnasol ym mhob trafodaeth sydd wedi digwydd ynghylch y Porthladd Rhydd.
- Gofynnwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd modd sicrhau bod y prosiect yn cydfynd â'r rhaglen Ynys Ynni a Chynllun y Cyngor 2023-2028, ac yn cyfrannu atynt? Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod amrywiaeth ehangach o fusnesau, yn enwedig y rheiny sydd â chadwyni cyflenwi sy'n gysylltiedig â gweledigaeth ehangach y rhaglen Ynys Ynni, sydd wedi cefnogi'r cynnig Porthladd Rhydd yn ogystal ag ail-sefydlu'r bont dir rhwng Dilyn ac Ewrop. Nodwyd fod y dyheadau o fewn Cynllun y Cyngor wedi'u cynnwys o fewn y cynnig Porthladd Rhydd.
- Gofynnwyd a oes pryderon y bydd busnesau o ardaloedd eraill yn adleoli yng Nghaergybi ac yn cael effaith ar economi'r ardaloedd hyn? Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod dadleoliad cwmnïau wedi achosi pryderon sydd wedi'u trafod yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynnig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod y statws Porthladd Rhydd yn ymestyn y tu hwnt i ardal Gaergybi. Nodwyd fod Swyddogion yn hyderus y bydd busnesau lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd fydd yn deillio o'r statws Porthladd Rhydd, ond mae angen denu busnesau eraill i ddarparu ar gyfer y sgiliau cynhyrchu er mwyn sicrhau bod yr Ynys yn datblygu.
- Cyfeiriwyd at y ffaith nad yw pob prif risg strategol ar gyfer y cynnig wedi'u nodi yn yr adroddiad. Gofynnwyd sut fydd yr Awdurdod yn rheoli a lliniaru'r risgiau hyn, a beth fydd y broses sgrwtini? Dywedwyd wrth y Pwyllgor y cydnabyddir y bydd angen eglurhad a sicrwydd pellach gan y ddwy Lywodraeth wrth i'r cynnig ddatblygu drwy'r broses Achos Busnes. Bydd angen cytuno ar eglurder rolau a chyfrifoldebau gyda Stena Line. Bydd angen llywodraethu grymus, rôl tymor hir ar gyfer y Cyngor ac adnoddau er mwyn ei ddarparu mewn modd cydsyniol ac effeithiol. Mae arbenigedd allanol ychwanegol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y cynnig. Unwaith fydd y Porthladd Rhydd wedi'i sefydlu, bydd adborth cyson yn cael ei gasglu gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgrwtini er mwyn sicrhau bod trefniadau monitro llym ar waith.

PENDERFYNWYD:-

- **Fod y Pwyllgor Sgrwtini'n cydnabod rôl y Cyngor o ran datblygu a chyflwyno'r cynnig Porthladd Rhydd llwyddiannus;**
- **Nodir camau nesaf o ran datblygiad Achos Busnes y Porthladd Rhydd, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.**

GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod

**CYNGHORYDD DYLAN REES
CADEIRYDD**